**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU**
**4 MEDI 2017**

Cofnodion cyfarfod Is-Bwyllgor Trwyddedu Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug am 10.45am dydd Llun, 4 Medi 2017.

**Yn bresennol: Y Cynghorydd Tony Sharps (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Brian Lloyd a Mike Reece

**Swyddogion Cyngor Sir y Fflint:**
Arweinydd Tîm Trwyddedu (Gemma Potter), Cyfreithiwr (Tim Dillon) a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd (Sharon Thomas)

Ymgeisydd

1. **YMDDIHEURIADAU**

Dim.

2. **DATGANIAD CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)**

Ni dderbyniwyd dim.

3. **DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD**

Eithrio'r wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol gan eu bod yn cael eu hystyried yn wybodaeth wedi'i heithrio yn rhinwedd paragraffau 12 ac 13 Adran 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd).

4. **GWRANDAWIAD A PHENDERFYNIAD YR YMGEISYDD**

Croesawodd y Cadeirydd yr ymgeisydd a chyflwynodd aelodau'r panel. Eglurodd y drefn ar gyfer y gwrandawiad, gan gynnwys sut y byddai'r ymgeisydd yn cael ei bennu.

5. **YMDDYGIAD GYRRWR CERBYD HURIO PREIFAT / CERBYD HACNI (AR Y CYD)**

Cyflwynodd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu yr adroddiad i ystyried ymddygiad gyrrwr Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni (ar y cyd).

Mewn ymateb i gwestiynau gan y panel, darparodd yr ymgeisydd wybodaeth ar ei euogfarnau goryrru diweddar a chadarnhaodd y rheswm iddo dderbyn gwaharddiad byr rhag gyrru yn hytrach na chael pwyntiau cosb ychwanegol. Dywedodd nad oedd wedi bod yn goddiweddu ar y pryd ac nid oedd yn ymwybodol bod newid yn y terfyn cyflymder ar hyd y darn penodol hwn o'r ffordd. Hefyd eglurodd yr amgylchiadau mewn perthynas â'r pwyntiau cosb yn dilyn euogfarnau blaenorol, a oedd yn dod i ben yn fuan.

Pan gafodd ei wahodd i ofyn cwestiynau, cododd yr ymgeisydd y pwynt o'r arwyddion cyflymder crwn du, a rhoddwyd eglurhad. Wrth ddarparu rhagor o wybodaeth ar ei euogfarn mwyaf diweddar, dywedodd bod mynd yn fwy na'r terfyn cyflymder wedi bod yn ddiffyg canolbwyntio a'i fod wedi dysgu yn dilyn y digwyddiad. Felly nid oedd yn teimlo y byddai bod yn bresennol mewn cwrs ymwybyddiaeth cyflymder yn angenrheidiol, am ei fod yn yrrwr rheolaidd ac roedd ganddo ddyfais wedi'i osod yn ei gar a fyddai'n helpu i fonitro newidiadau mewn terfynau cyflymder.

Pan oedd y Cadeirydd yn fodlon y gofynnwyd yr holl gwestiynau perthnasol, gofynnodd i'r ymgeisydd a'r Arweinydd Tîm Trwyddedu i adael y cyfarfod tra'r oedd y panel yn dod i benderfyniad.

**5.1 Penderfyniad am yr Ymgeisydd**

I bennu'r cais, rhoddodd y panel ystyriaeth i gynrychioliadau llafar ac ysgrifenedig yr ymgeisydd, a chanllaw'r Cyngor ar drin euogfarnau sydd yn arwain at gymhwyster cyfnod byr. Wrth ystyried yr amgylchiadau ynghlwm yn y gwaharddiad a'r camau rhagofalus a gymerwyd gan yr ymgeisydd, roedd y panel yn teimlo ei fod yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/ Hurio Preifat (ar y cyd).

Gwahoddwyd yr Arweinydd Tîm Trwyddedu a'r ymgeisydd yn ôl er mwyn ailymgynnull y cyfarfod.

**5.2 Penderfyniad**

Dywedodd y Cadeirydd, ar ôl ystyried y cynrychioliadau a wnaethpwyd, cytunodd y panel y bydd yr ymgeisydd yn parhau i gael trwydded yrru cerbyd hacni/ hurio preifat.

**<u>PENDERFYNWYD:</u>**

Bod yr ymgeisydd yn unigolyn cymwys ac addas i gynnal Trwydded Yrru Cerbyd Hurio Preifat/Cerbyd Hacni o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a chaniatáu'r Drwydded iddo.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.45am a daeth i ben am 11.20am)